# Hysbysiad Adeiladu

Deddf Adeiladu 1984
Rheoliadau Adeiladu 2010

**Uned Rheoli Adeiladu**
**Cyngor Sir Caerfyrddin**

| **TEIPIWCH NEU DEFNYDDIWCH LYTHRENNAU BRAS** | **Rhif Cais:** *(At ddefnydd swyddfa'n unig)* |
|---|---|

| **1. Manylion yr Ymgeisydd** | **2. Rhif yr Asiant** (os yn berthnasol) |
|---|---|
| Enw:<br>Cyfeiriad:<br><br>Cod Post:<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | Enw:<br>Cyfeiriad:<br><br>Cod Post:<br><br>Ffôn:<br>E-bost: |

**3. Lleoliad yr adeilad sy'n berthnasol i'r gwaith:**

Cyfeiriad:

Cod Post: Cyfeirnod Grid: ______________________________

**Rhaid** i'r cais gynnwys **Cynllun Lleoliad** i raddfa 1:1250 neu 1:2500 a **Chynllun Bloc** i raddfa 1:500 a rhaid i'r ddau ddangos y ffiniau yn glir mewn coch.

**4. Gwaith Arfaethedig:**

**5. Dyddiad cychwyn:** *(os ydych yn gwybod)*

___________________

**6. Personau Anabl:** Oes ☐ Nac oes ☐

*A yw'r gwaith yn cynnwys unrhyw un o'r categorïau a nodir yn Nodyn 6*

**7. Defnydd o'r adeilad:**

*(a) Os yw'n adeilad newydd neu'n estyniad, nodwch y defnydd arfaethedig:-*

*(b) Os yw'n adeilad sy'n bodoli eisoes, nodwch ei ddefnydd presennol:-*

**8. Cyfanswm arwynebedd llawr yr adeilad/estyniad newydd:**

______________

**9. Cyfanswm yr ystafelloedd gwely:**

______________

**10. Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref:**

*(a) A oes cais wedi'i gyflwyno neu'i bennu ar gyfer y gwaith arfaethedig dan y Deddfau Cynllunio*
Oes ☐ Nac Oes ☐

*(b) Os felly, rhowch y Rhif Cyfeirnod:*

________________________

**11. Draeniad:**

*(a) Dull o waredu dŵr brwnt:* ____________________

*(b) Dull o waredu dŵr arwyneb:* ____________________

*(c) Dull o gael cyflenwad dŵr:* ____________________

**12. Gwaith Trydanol Domestig (I'w gwblhau ar gyfer POB Cais Domestig sy'n cynnwys Gwaith Trydanol)**

*Ai contractwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Hunan-ardystio Rhan P fydd yn cyflawni'r gwaith trydanol?*
Ie ☐ Na ☐

*Os mai IE oedd eich ateb, nodwch enw'r corff sy'n gweithredu'r cynllun:* ________________________________

*Os mai NA oedd eich ateb, cyflwynwch ein Ffurflen Gais Hysbysiad Adeiladu Gwaith Trydanol ac mae'n bwysig eich bod yn darllen Nodyn 12 - Codir tâl ychwanegol am y gwaith hwn.*

**13. Costau:** Amcangyfrif o gyfanswm cost y gwaith £________

Ffi: £________ Taw: £________ Cyfanswm y Ffi: £________

**14. Datganiad:**

**Rhoddir yr hysbysiad hwn o ran y gwaith adeiladu a ddisgrifiwyd, ac mae'n cael ei gyflwyno yn unol â Rheoliad 12 (2) (a)**

Cofiwch mai Cais Hysbysiad Adeiladu yw hwn a Ffi Cynllun Hysbysiad Adeiladu yn unig sy'n berthnasol.

Ni ellir ystyried hysbysiad adeiladu na chynlluniau sy'n cyd-fynd ag ef yn rhai a gyflwynwyd yn ffurfiol dan y Rheoliadau Adeiladu ac **ni fydd penderfyniad** yn cael ei roi.

Os na fydd y gwaith yn cychwyn o fewn tair blynedd i gyflwyno'r cais Hysbysiad Adeiladu, bydd y cais yn cael ei ystyried wedi darfod dan ddarpariaethau Adran 32, Deddf Adeiladu 1984, a bydd rhaid cyflwyno cais arall.

**Enw:** ________________________

**Llofnod:** ________________________ **Dyddiad:** ____________________

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â ni isod neu fel arall ewch i'n gwefan gynhwysfawr gan ddilyn y cyfeiriad canlynol:-** www.carmarthenshire.gov.uk/buildingcontrol

**Dychwelwch y ffurflen a'r ffi berthnasol at:**


Cyngor Sir Gar
Lle a Chynaliadwyedd
Yr Uned Rheoli Adeiladu
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
SA31 1LE

Ffôn: 01267 246044
E-bost: building.control@carmarthenshire.gov.uk

## Nodiadau:

**1.** Yr ymgeisydd yw'r person sy'n cael y gwaith wedi'i gyflawni ar ei ran, h.y. perchennog yr adeilad.

**2.** Dylid cyflwyno dau gopi o'r hysbysiad hwn a'u cyflwyno ynghyd â chynllun lleoliad i raddfa 1:1250 neu 1:2500 gan nodi'r ffin yn glir mewn coch.

**3.** Pan fo'r gwaith arfaethedig yn cynnwys codi adeilad newydd neu estyniad bydd y canlynol yn cael eu cyflwyno gyda'r hysbysiad hwn:
**3.1** CYNLLUN BLOC/SAFLE i raddfa fel arfer 1:500 neu 1:200 gan nodi'r ffin yn glir mewn coch yn dangos:-
**3.1.1** Maint a lleoliad yr adeilad, neu'r adeilad estynedig, a'i berthynas â ffiniau cyfagos;
**3.1.2** Ffiniau cwrtil yr adeilad, neu'r adeilad estynedig, a maint, safle a defnydd pob adeilad neu adeilad arfaethedig arall o fewn y cwrtil;

**4.** Disgrifiwch yr hyn a olygir gan y gwaith arfaethedig.

**5.** Rhaid i'r unigolyn sy'n cyflawni'r gwaith adeiladu roi hysbysiad ysgrifenedig o ddechrau'r gwaith o leiaf 48 awr ymlaen llaw.

**6.** Ceisiadau ar gyfer gwaith sy'n unswydd ar gyfer pobl anabl.

Er mwyn i'r gwaith gael ei eithrio rhag costau rhaid iddo gynnwys;

6.1 **Newidiadau sydd:-**
(i) yn llwyr at ddibenion o ddarparu **mynedfa** i alluogi pobl anabl fynd **i mewn ac allan** o adeilad presennol **ac i mewn ac allan o unrhyw ran ohono** neu o unrhyw ran ohono neu i ddarparu **cyfleusterau** a luniwyd i ddiogelu iechyd, diogelwch, lles neu gyfleuster gwell i unigolion o'r fath; ac
(ii) i'w gyflawni mewn perthynas ag:
(a) adeilad presennol y mae aelodau o'r cyhoedd yn cael mynediad iddo. neu;
(b)annedd presennol sydd, neu a fydd, yn cael ei feddiannu gan berson anabl.

6.2 **Estyniadau i annedd, ac unig ddefnydd yr ystafell yw:-**
(i) cyflawni triniaeth feddygol person anabl na ellir ei gyflawni'n rhesymol mewn unrhyw ystafell arall yn yr annedd; neu
(ii) ar gyfer storio offer meddygol at ddefnydd person anabl;
(iii) darparu **llety hanfodol** neu **gyfleuster hanfodol** trwy **addasu** neu **ddisodli llety** neu **gyfleuster a oedd yn bodoli eisoes** yn yr adeilad **nad oedd** modd ei ddefnyddio, neu ei **ddefnyddio heb gymorth**, gan y person anabl.

**7.** Mae'r nodiadau hyn at ddibenion canllawiau cyffredinol yn unig, ceir manylion ynglŷn â chyflwyno cynlluniau yn Rheoliadau 13 Rheoliadau Adeiladu 2010 ac o ran y ffioedd yn Rheoliadau (Costau Awdurdod Lleol) Adeiladu 2010.

**8.** Nodwch gyfanswm arwynebedd llawr yr adeilad newydd.

**9.** Nodwch gyfanswm yr ystafelloedd gwely NEWYDD yn yr adeilad newydd.

**10.** Atgoffir y personau sy'n cynnig cyflawni gwaith adeiladu neu newid defnydd materol adeilad y gallai fod angen caniatâd dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

**11.** Pan gynigir codi'r adeilad neu'r estyniad dros y garthffos neu'r draen a nodir ar fap perthynol o'r garthffos gyhoeddus, rhaid dilyn y rhagofalon ynglŷn ag adeiladu dros garthffos neu ddraen.

**12.** Bydd yn ofynnol i chi gan y Cyngor ddarparu ardystiad o brofi a chynnal archwiliad boddhaol o'r holl waith na chyflawnwyd dan y Cynllun Personau Cymwys. Gall y gofyniad hwn yn anffodus gynyddu'r gost i'r ymgeisydd a gallai achosi oedi (trefnu i drydanwr arall gyflawni'r archwiliad a'r prawf). Dylai unrhyw osodiad trydanol a gyflawnir gan rywun nad yw wedi'i gofrestru a NICEIC neu ECA ddarparu tystysgrif gosod, ynghyd â thystysgrif brawf a baratowyd gan aelod o NICEIC neu ECA.
**BS 7671 Tystysgrifau Trydanol ar gyfer gosodiadau newydd, ailweirio ac ychwanegu cylchedau newydd i osodiad presennol**
Os **yw'r** contractwr trydanol yn aelod o NICEIC neu ECA, rhaid iddo lenwi **Tystysgrif Gosod (Ffurflen 1).**
Os **nad** yw'r contractwr trydanol yn aelod o NICEIC neu ECA, rhaid iddo lenwi rhannau **Dylunio ac Adeiladu'r Dystysgrif Gosod (Ffurflen 2)** (fel y'i diwygiwyd) **ac** mae'n ofynnol i chi drefnu bod contractwr trydanol sy'n aelod o NICEIC, EIC neu Gynllun Personau Cymwys yn archwilio a phrofi'r gosodiad er mwyn ei alluogi i lenwi rhan **Archwilio a Phrofi** y ffurflen.
Yn y ddau achos mae'n ofynnol i'r contractwr trydanol lenwi **Atodlen Archwilio (Ffurflen 3)** ac **Atodlen o Ganlyniadau Prawf (Ffurflen 4) Socedi neu Oleuadau ychwanegol i osodiadau presennol mewn cegin neu leoliad arbennig.**
Os yw'r contractwr trydanol yn aelod o'r NICEIC, ECA neu ei fod yn gymwysedig â Thystysgrif City and Guilds 2391, rhaid iddo lenwi: **Tystysgrif Mân Waith (Ffurflen 5).**
**Rhaid cyflwyno copïau priodol o'r ffurflenni i'r Awdurdod ar ôl cwblhau'r gwaith; bydd methiant i wneud hyn yn atal yr Awdurdod rhag rhoi Tystysgrif Cwblhau a gallai arwain at gamau Gorfodi yn eich erbyn chi a/neu eich contractwr trydanol.** Cynghorir perchnogion tai i beidio â thalu contractwr hyd nes bod tystysgrifau ar gyfer y gwaith trydanol wedi'u darparu a bod y gwaith adeiladu'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.
Fe'ch cynghorir mai'r ffordd orau i gael cymeradwyaeth yw defnyddio contractwr trydanol sydd wedi'i gofrestru dan y Cynllun Personau Cymwys Hunan-ardystiedig.

**Bydd yr Hysbysiad Adeiladu hwn yn dod i ben tair blynedd ar ôl y dyddiad y cafodd ei gyflwyno i'r Awdurdod Lleol oni bai bod y gwaith wedi dechrau neu fod newid defnydd perthnasol wedi bod cyn diwedd y cyfnod hwnnw.**